**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Arolwg y Gyllideb 2025 – Adborth i gymunedau**

*This document is also available in English*

Diolch yn fawr i'r unigolion a dreuliodd amser yn rhannu eu barn ar arolwg y gyllideb. Erbyn hyn, mae'r wybodaeth wedi'i dadansoddi a'i chyflwyno i Aelodau Etholedig er mwyn helpu i lywio eu penderfyniad i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/ 2026. Mae'r adroddiad i'w weld yma Cyllideb 2025/2026

Rydym wedi trefnu'r adborth yn ôl y themâu cyffredin a dderbyniwyd, ac wedi cynnig eglurhad lle bo modd.

1) **Lleihau costau a bod yn fwy effeithlon**:

Dros y 12 mlynedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i ddod o hyd i £94 miliwn o arbedion o ran y gyllideb, drwy newid gwasanaethau a moderneiddio'r ffordd rydym ni'n gweithio, er mwyn bod mor effeithlon â phosibl.

Roedd yna sawl awgrym yn gysylltiedig â'r thema hon, megis:

**Rhewi neu beidio â chasglu treth y Cyngor.**

Y Setliad Cyllid Llywodraeth Leol sy'n pennu faint o'r cyllid cyhoeddus yng Nghymru a fydd yn cael ei ddyrannu i bob Cyngor. Mae'r cyllid yn cynnwys Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac ardrethi annomestig (ardrethi annomestig/ ardrethi busnes) sy'n cael eu cronni ledled Cymru a'u hailddosbarthu ar sail poblogaeth pob Cyngor, gan ddefnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Rydym yn derbyn 70% o'n cyllid fel hyn. Caiff y 30% sy'n weddill ei godi'n lleol drwy dreth y Cyngor.

Mae Treth y Cyngor yn dreth statudol, sy'n golygu ei fod yn ofyniad cyfreithiol i ni godi treth ar feddianwyr (a rhai perchnogion) anheddau yn ardal y Cyngor. Mae'r swm yn amrywio yn ôl band yr annedd, sy'n cael ei bennu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn seiliedig ar werth yr annedd. Nid yw treth y Cyngor yn dâl uniongyrchol am y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu, na chwaith yn dâl uniongyrchol am wasanaethau unigol a dderbynnir. Mae'r swm o Dreth y Cyngor sy'n cael ei gasglu yn helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau er budd y gymuned gyfan.

Mae'r cynnydd % yn nhreth y Cyngor ar gyfer anheddau, cartrefi gwag ac ail gartrefi, yn benderfyniad democrataidd lleol, ond ni all y Cyngor ddewis peidio â chodi treth y Cyngor.

Un awgrym a gafwyd o'r arolwg oedd y dylid adolygu bandiau treth y Cyngor. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Gellir darllen rhagor am hyn ar eu gwefan: Diwygio Treth y Cyngor | LLYW.CYMRU

Yn ogystal, gall Cynghorau wneud cais am ragor o gyllid drwy raglenni grant Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chreu arian drwy godi ffioedd a thaliadau am wasanaethau a nwyddau.

**Dileu’r gostyngiad treth y Cyngor person sengl dros dro.**

Nid oes gan Gonwy bŵer i newid hyn – mae’n ofyniad cyfreithiol i gymhwyso’r gostyngiad hwn ar gyfer unigolion cymwys.

**Cau adeiladau diangen a mabwysiadu wythnos waith hybrid i arbed ynni a chostau teithio.**

Mae hyn wedi’i gyflwyno eisoes ar gyfer staff sy’n gweithio mewn swyddfa. Mae gan bob tîm gytundeb sy'n sicrhau eu bod yn mynd i’r swyddfa bob wythnos, yn ogystal â gweithio gartref. I'r gwrthwyneb, awgrymodd rhai y dylem leihau nifer y staff sy'n gweithio gartref. Trwy foderneiddio’r ffordd rydym yn gweithio, ers 2018 rydym wedi cau ein swyddfeydd mawr yn swyddfeydd Dinerth Road, y swyddfeydd Dinesig, adeilad Glan y Don, yr anecs a phorthdy’r gofalwr. Yn ogystal, mae 12 o swyddfeydd llai eraill sy'n aneffeithlon ac yn mynd yn hen ym Mae Colwyn a Llandudno wedi’u cau hefyd, ac rydym wedi cytuno i werthu Swyddfeydd y Cyngor ym Modlondeb, a bydd hynny’n digwydd ddechrau’r haf, gan leihau nifer ein swyddfeydd i 1 brif swyddfa.

Nid yw’r rhan fwyaf o’n staff (60%) yn gweithio mewn swyddfa, ac maent yn gweithio mewn cymunedau ledled y Sir.

Cyfeiriwyd yn benodol at Barc Masnach Mochdre. Ar hyn o bryd, wrth i achosion cyfreithiol fynd rhagddynt, nid oes modd i ni rannu diweddariad pellach ynghylch statws prydles yr adeilad. Rhennir y wybodaeth ddiweddaraf â’r Cynghorwyr ar ôl i’r achosion cyfreithiol ddod i ben.

**Diogelu cyllidebau Addysg, uno a buddsoddi mewn ysgolion**

Lle bo modd gwneud hynny, mae cyllidebau ysgolion wedi’u diogelu, fodd bynnag, mae’n rhaid rhannu’r gostyngiadau yn y gyllideb yn gyfartal ar draws yr holl wasanaethau hanfodol. Rydym wrthi’n cefnogi Uwch Arweinwyr Ysgolion a Chyrff Llywodraethu i ddod o hyd i ffyrdd o wneud ysgolion yn fwy effeithlon, sy’n allweddol wrth i niferoedd disgyblion leihau. Mae hyn yn cynnwys cefnogi uno ysgolion ac adeiladu ysgolion newydd. Rydym yn ceisio gwneud hyn mewn modd arloesol, er mwyn sicrhau bod gennym ysgolion sy’n addas ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

**Lleihau gwariant ar y Gymraeg i’r hyn sy’n ofynnol yn gyfreithiol yn unig**.

Mae’r ddyletswydd i gefnogi a hyrwyddo’r Gymraeg yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Rydym yn falch o fod yn awdurdod dwyieithog ac o hyrwyddo’r Gymraeg. Yn ddiweddar, rydym wedi diweddaru ein Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg, Ein Llais Cymraeg, sy’n dangos fod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd. Nid yw ein costau o ran y Gymraeg yn sylweddol, ac mewn gwirionedd, mae ein tîm cyfieithu yn cynhyrchu incwm, ac mae dathlu ein diwylliant cyfoethog yma yng Nghymru yn denu twristiaid.

**Cael gwared ar staff nad ydynt yn gynhyrchiol neu sy’n tanberfformio ac adolygu graddfeydd cyflog uchel ar gyfer rolau nad ydynt yn deilwng ohono.**

Mae gennym fframwaith ar gyfer hyn a elwir yn Sgwrs Conwy sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn cael sgyrsiau rheolaidd gyda'u rheolwr atebol. Mae hyn yn cynnwys sgyrsiau ynghylch perfformiad. Os na fydd aelod o staff yn perfformio yn ôl y disgwyl, mae gennym bolisïau AD sy'n cael eu dilyn megis y polisi gallu neu'r polisi disgyblu. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu cefnogi i berfformio’n dda yn eu swyddi.

Rydym yn defnyddio cynllun gwerthuso swyddi ar gyfer cyflogau staff. Mae gwerthuso swyddi yn broses systematig, rywedd-niwtral sy’n cael ei defnyddio i bennu sgiliau a

chymhlethdod swyddi gwahanol. Mae hyn yn caniatáu i ni lunio strwythur cyflogau teg a chyson, fel bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg ar sail eu cyfraniad a'u gallu, yn hytrach na thueddiadau personol neu wahaniaethu anghyfreithlon. Mae hyn yn sicrhau, ni waeth pa fath o swydd sydd gan aelod o staff, ei bod wedi'i hasesu'n deg, er mwyn sicrhau y dyrennir y lefel gywir o gyflog. Rydym yn cyhoeddi [datganiad polisi tâl] bob mis Mawrth sy'n dangos lefelau cyflog pob aelod o staff yn glir.

Rydym hefyd yn cyhoeddi [cyflogau, lwfansau a threuliau Aelodau] bob blwyddyn. Nid ydym yn trafod nac yn pennu dyfarniadau cyflog ar gyfer staff nac aelodau. Caiff y rhain eu trafod yn genedlaethol bob blwyddyn.

**Uno Cynghorau Sir er mwyn lleihau nifer y gweithwyr a chael gwared ar swyddi nad ydynt yn rhai rheng flaen**

Dros y blynyddoedd, mae trafodaethau wedi bod gan Lywodraeth Cymru ynghylch uno Cynghorau. Yn 2014, bu i Gynghorau Conwy a Sir Ddinbych wirfoddoli i uno. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r gost o'u huno yn llawer uwch na'r arbedion y gellid eu gwneud ac na fyddai'n lleihau nifer y gweithwyr yn sylweddol.

Nid oes unrhyw swyddi yn yr awdurdod nad oes eu hangen. Os nad oes angen swydd mwyach, rydym yn dilyn proses ddiswyddo a/neu'n cael gwared ar y swydd pan fydd swyddog yn ymddiswyddo. Rydym hefyd yn recriwtio swyddi cyfnod penodol, er mwyn sicrhau nad ydym yn cyflogi pobl y tu hwnt i'r cyfnod gofynnol o ran ariannu neu dasg. Caiff swyddi nad ydynt yn rhai rheng flaen yn aml eu targedu o ran gwneud gostyngiadau yn y gyllideb, ond maent yn hanfodol er mwyn rhedeg gwasanaethau rheng flaen yn ddidrafferth, megis talu biliau, recriwtio a hyfforddi staff, cynnal a chadw offer TG a sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y gyfraith.

**Rhoi'r gorau i wario ar yr holl wasanaethau nad ydynt yn angenrheidiol a dod â nhw i ben ar unwaith**.

Gwasanaethau nad ydynt yn angenrheidiol neu wasanaethau 'dewisol' yw'r gwasanaethau hynny y mae gan Gyngor bŵer i'w darparu, ond nad oes rheidrwydd arno i wneud hynny. Gwasanaethau statudol yw'r rhai y mae'n rhaid i Gyngor eu darparu, ond penderfyniad lleol yw lefel y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Gall gwasanaethau dewisol fod yn hollbwysig o ran cyflawni swyddogaethau statudol, a hebddynt, gellid gorlwytho rhai gweithgareddau statudol. Er enghraifft, mae gwasanaethau hamdden, chwaraeon ac adloniant yn chwarae rhan bwysig o ran lleihau'r galw ar wasanaethau iechyd, yn ogystal ag addysgu sgiliau bywyd a lles cyffredinol i bobl ifanc. Mae cymhorthion ac addasiadau a darpariaeth offer cymunedol yn helpu i leihau'r galw am ofal preswyl.

**Rhoi'r gorau i ariannu pethau na ellir eu fforddio mwyach**.

Rydym eisoes wedi gwneud hynny dros y blynyddoedd. Mae dros ddegawd o ostyngiadau mewn cyllid cyhoeddus wedi golygu bod Cynghorau ar draws y DU yn gorfod gwneud toriadau mewn cyllidebau, dod â gwasanaethau i ben, bod yn fwy effeithlon, lleihau staff a chreu incwm newydd. Fodd bynnag, er y rhoddir blaenoriaeth i wasanaethau sydd wedi'u targedu i helpu i ddiogelu'r unigolion mwyaf diamddiffyn a dod o hyd i ffyrdd newydd o leihau gwariant a chynyddu capasiti, mae'n profi'n fwyfwy anodd i Gynghorau ymdopi â llai o gyllid a darparu'r gwasanaethau y mae hynny'n ofynnol yn gyfreithiol i'w wneud. Nid yw hyn yn ymwneud â rheolaeth ariannol wael, ond yn hytrach cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau, (yn benodol gofal cymdeithasol, addysg a thai), pwysau cyflogau gan

gynnwys cynnydd yng nghyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr a chwyddiant cyffredinol, sy’n golygu fod cost uwch am bopeth rydym ni’n ei brynu.

**Rhoi’r gorau i wastraffu arian ar brosiectau ‘oferedd’**

Caiff ein holl brosiectau allweddol eu datblygu yn seiliedig ar angen cymunedol a byddant yn mynd drwy broses ddemocrataidd i’w cymeradwyo. Maent yn cael eu hasesu’n ofalus a chreffir arnynt yn seiliedig ar y gost a’r angen cymunedol a chaiff yr holl waith ei dendro, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian. O bryd i’w gilydd, byddwn yn clywed pobl yn dweud na ddylem fod yn gwario ar waith penodol, megis amddiffynfeydd môr neu lwybrau beicio, ac yn hytrach, y dylem wario’r arian ar ysgolion neu dyllau mewn ffyrdd. Caiff y prosiectau hyn eu hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru fel arfer. Golyga hyn ei fod yn gyllid ychwanegol a ddyrannir i ni ar yr amod mai dim ond ar y prosiect y cafodd y cyllid ei ddyrannu ar ei gyfer y caiff ei wario.

**Adeiladu mwy o gartrefi cymdeithasol i leihau costau llety dros dro a buddsoddi mewn gwasanaethau atal er mwyn arbed arian yn yr hirdymor**.

Mae ein Rhaglen Tai a Digartrefedd yn gweithio’n galed i leihau digartrefedd a darparu mynediad at dai fforddiadwy. Mae’r cyflenwad o dai fforddiadwy yn deillio o drosiant cartrefi presennol a datblygiad tai cymdeithasol newydd. Ar gyfartaledd, mae 291 o unedau tai cymdeithasol ar gael i’w prydlesu bob blwyddyn. Darparwyd 37 o dai cymdeithasol newydd yn 2023/24 a rhagwelir y bydd 34 ohonynt yn cael eu darparu yn 2024/25. Mae’r ffigurau hyn yn isel o gymharu â blynyddoedd blaenorol, gan fod yr anawsterau a wynebwyd gan gontractwyr a datblygwyr ac oedi ar safleoedd yn dilyn Covid, wedi cael effaith fawr ar Gonwy.

Rydym yn parhau i weithio gyda’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni ar gyfer gwario’r dyraniad grant Tai Cymdeithasol yn llawn ac i gymryd unrhyw gyllid ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae dau gynllun newydd wedi dechrau ar y safle hyd yn hyn, a disgwylir i ddau arall ddechrau ar y safle cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y cyflenwad o’r pedwar cynllun yn dod i gyfanswm o 160 uned; 112 eiddo rhent cymdeithasol, gan gynnwys 44 x uned 1 ystafell wely, ac 18 x uned 4+ ystafell wely, 45 eiddo rhent canolig a 3 uned tai gofal cymdeithasol (o fewn 1 eiddo a rennir).

**2) Awgrymiadau ar gyfer cynhyrchu incwm**

Roedd yna sawl awgrym yn gysylltiedig â’r thema hon, megis:

**Codi tâl** am barcio ar draethau, cynyddu costau toiledau cyhoeddus, cyflwyno treth dwristiaeth, cynyddu costau ffioedd parcio, ffioedd cartrefi gofal, ffioedd cynllunio a ffioedd hamdden, yn ogystal ag ailgyflwyno dirwyon am ddychwelyd llyfrau llyfrgell yn hwyr a chreu trwyddedau parcio ar gyfer preswylwyr ac aelodau staff.

Mae gennym strategaeth ffioedd a thaliadau sy'n cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol. Byddai’n ofynnol newid deddfwriaeth ac yna cael dadl wleidyddol leol bellach ar gyfer cyflwyno treth dwristiaeth. Cyflwynwyd Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2024. Mae’r Bil yn rhoi pŵer caniataol i awdurdodau lleol benderfynu a ydynt am gyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd lleol ai peidio. Ni ellir penderfynu ar hyn yn lleol nes daw’r Bil yn gyfraith.

3) **Awgrymiadau ar gyfer prosesau busnes gwell**

**Tryloywder ac Atebolrwydd**: Roedd llawer o'r sylwadau'n rhoi pwyslais ar bwysigrwydd tryloywder o ran gwariant Cynghorau a gwneud penderfyniadau.

Cynhelir adolygiadau rheolaidd o wariant arfaethedig ac mae'n rhaid cyflwyno pob pryniant dros £1000 gerbron Bwrdd Caffael neu Banel Gwariant. Rydym yn cyfathrebu'n glir â threthdalwyr ynghylch sut y caiff eu harian ei wario drwy'r adroddiadau amrywiol ar y gyllideb a gyflwynir i'r Cyngor drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn dirnad bod y rhain yn ddogfennau hir a thechnegol, felly rydym wedi creu fideo i ddangos sut y caiff yr arian ei wario. Yn ogystal, rydym yn cyflwyno ffeithluniau yn flynyddol ynghylch sut y caiff cyllidebau eu dyrannu ar draws gwasanaethau a'r hyn rydym ni'n ei gyflawni mewn diwrnod, mewn wythnos ac mewn blwyddyn.

**Lleihau nifer y Cynghorwyr.**

Nid Conwy sy'n pennu faint o Gynghorwyr sydd gennym. Rôl y Comisiwn Etholiadol yw honno. Mae nifer y cynghorwyr wedi lleihau yn dilyn yr adolygiad diweddar o ffiniau etholiadol, lle gwelwyd nifer y Cynghorwyr yn lleihau o 59 i 55 yn 2022. Nid Conwy sy'n pennu cyflogau Cynghorwyr chwaith. Fe'u pennir gan y Comisiwn Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a hynny ar lefel sy'n hyrwyddo amrywiaeth, fel bod gan unrhyw un o unrhyw oedran, rhyw neu gefndir, y cymorth ariannol sydd ei angen i ymgymryd â'r rôl gymunedol hon yn hytrach na'i fod yn gymwys ar gyfer unigolion sydd wedi ymddeol neu sydd mewn sefyllfa ariannol i roi'r gorau i weithio yn unig. Dylid nodi hefyd bod rhai Cynghorwyr yn parhau i weithio ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau fel Cynghorydd.

**Gwneud y mwyaf o dechnoleg**: Cafwyd awgrymiadau i ddefnyddio mwy ar ddeallusrwydd artiffisial.

Rydym wrthi'n archwilio ffyrdd y gall atebion digidol ein cefnogi i wneud pethau'n gyflymach a mwy effeithlon, yn ogystal â chynyddu capasiti. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol, o safbwynt cwsmeriaid, bod yna breswylwyr nad ydynt yn llythrennog yn ddigidol, neu nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg o bosibl. Rydym felly yn sicrhau bod gennym gydbwysedd rhwng newidiadau technegol a'r angen i barhau gyda'r dewis i siarad gydag aelod o staff.